# Cwmni

**Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi**

Rhifyn 259 £1 Mis Tachwedd 2023




## Lleisiau Rhymni




**PWYLLGOR a SWYDDOGION**

*Ariennir yn rhannol gan* ***Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt

**Trysorydd: Meirion Powell:** mpowell0@yahoo.com

**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 07579763030.

**Golygydd Lluniau:** Mary Jones **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney **Cofnodion:** Ann Lewis

**Gweplyfr/ Face book:** Papur Bro Cwmni **Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams

**Gwefan:** Menter Iaith Sir Caerffili.cymru/

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com

**Argraffir gan Tower Print, Bedwas**

# Jamie Hallett—Llongyfarchiadau

Mae cyfarfod â phrifathro ysgol yn brofiad pleserus ond yn un arferol iawn. Ond beth am fynd i weld pennaeth sy'n brifathro ar ddwy ysgol - y ddwy ar yr un pryd!

Does dim rhaid bod ym mhresenoldeb Jamie Hallett yn hir cyn profi ei frwdfrydedd a'i ymroddiad tuag at y swydd unigryw hon a Jamie yn bennaeth ar Ysgol Bro Sannan ac Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod. Mae'n ddigon hawdd rhagweld yr anawsterau a allai godi pan fod un arweinydd yn gorfod teithio rhwng dwy ysgol y naill ar ochr wahanol o'r cwm i'r llall, ond pwysleisio'r manteision a'r posibiliadau wna Jamie pob tro.



Dysgodd Jamie Gymraeg yn y Rhondda Fawr lle bu'n ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Bodringallt yn Ystrad Rhondda cyn symud ymlaen i Ysgol Gyfun y Rhondda yn y Porth. Ei swydd gyntaf oedd yn athro dosbarth ym Modringallt cyn symud ymlaen at Ysgol Bro Sannan lle daeth yn ddirprwy bennaeth ac yna, yn bennaeth dros dro. Gwelodd yr awdurdodau fod ganddo sgiliau arweinyddiaeth cryf a gofynnwyd iddo fynd ati i gynorthwyo Ysgol Gymraeg y Ffin. Y ffin, wrth gwrs, yw'r ffin rhwng Cymru a Lloegr ac felly mae'r ysgol yn y man mwyaf Seisnig efallai yng Nghymru. Daeth yn bennaeth yno yn 2015 er bod hyn yn golygu taith o awr a chwarter o'i gartref pob dydd. Ond nid ef oedd yr unig un i orfod teithio gan fod yr ysgol yn denu plant o dros y ffin o Loegr a hwythau heb unrhyw hawl i drafnidiaeth rad.

Mae Ysgol y Ffin yng Nghil y Coed, yn y Sir Fynwy newydd a'r unig Ysgol Gymraeg arall yn sir gyfan yw Ysgol Gymraeg Y Fenni. Roedd galw am gydweithio gyda'r ysgol honno a hefyd Ysgolion Cymraeg Casnewydd oedd dipyn yn agosach. Prawf pellach ar ymroddiad y plant yn Sir Fynwy, wrth gwrs, oedd gorfod codi'n fore am eu haddysg uwchradd i gyrraedd Ysgol Gwynllyw ym Mhontypŵl pob dydd. Ond yn fwy na chydweithio o fewn y sir honno bu Jamie yn rhan o gorff aeth ati i ddatblygu Ysgolion Cymraeg yn yr hen Went. Ynghyd ag arweinyddion cryf fel Elin Maher, Rhian ac Owain ap Dafydd, ffurfiwyd Bwrdd Llywodraethol ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg yng Nghasnewydd - Bwrdd Llywodraethol ar gyfer ysgol nad oedd hyd yn oed wedi'i sefydlu yr adeg honno! Ond dod, yn y pen draw, wnaeth yr ysgol a adwaenwn bellach fel Ysgol Gwent Is-Coed.

Daeth Jamie yn ôl i Gwm Rhymni pan gafodd wahoddiad i gymryd secondiad i helpu gyda'r ddwy ysgol a dod yno yn 2020, ganol y Pandemig. Mae manteision amlwg gan ysgolion llai, yn enwedig ein Hysgolion Cymraeg, â'u naws mwy personol a chartrefol. Ond mae hefyd anfanteision gan nad oes yr un ystod o arbenigedd mewn ysgol fach. Cyd weithio, felly yw'r allwedd ar gyfer manteisio'n llawn ar gryfderau'r naill ysgol a'r llall. Wrth gyd gynllunio a chyd hyfforddi a thrafod mae'n bosib i'r naill ysgol rhoi cymorth i'r llall.

Elfen hanfodol llwyddiant y drefn hon yw ymroddiad dirprwyon y ddwy ysgol. Maen nhw yn gorfod bod yn gyfrifol am redeg y naill ysgol pan fo'r pennaeth yn y llall. Y gobaith, wrth gwrs, yw ein bod ni fel hyn yn datblygu athrawon a ddaw yn benaethiaid llawn yn eu pryd. Mae'r ddwy ysgol wedi blasu llwyddiant. Cafodd y ddwy adroddiad da yn dilyn arolwg. Mae'r Urdd yn cynnal clybiau ym Mro Sannan ac mae'r ysgolion hefyd wedi cystadlu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd. Daeth Bro Sannan yn drydydd yng nghystadleuaeth Ysgol y Flwyddyn ac ennillodd Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod ddyfarniad Aur am y Siarter Iaith. A chofiwn i Jamie ei hunan gyrraedd rownd derfynol Gwobr Pennaeth y Flwyddyn.

Collodd Ysgol Gilfach ddarnau helaeth o'i dalgylch ar hyd y blynyddoedd wrth i dyfiant yn y galw am addysg Gymraeg arwain at agor mwy o ysgolion. Collodd Gilfach dir fel canlyniad i ddyfodiad Uned Tir y Berth ac yna ysgolion Bro Allta, Bro Sannan a Phenalltau. Syrthiodd ei rhifau o 300 hyd at lai na chant oherwydd hyn ac effeithiau Covid. Nod Jamie bellach yw ail godi'r ysgol i'w hen gryfder ac mae digon o le yn yr adeiladau erbyn hyn i gyflawni hynny.

Dymunwn pob llwyddiant pellach iddo.

# Perthi

Wrth i olion diwydiant ddiflannu o'n cymoedd, mae hen batrymau'r tirwedd yn dechrau amlygu eu hun eto. Ddwy ganrif a rhagor yn ôl, wrth i deithwyr groesi Mynydd Caerffili ar eu ffordd i ryfeddu ar waith haearn Pentyrch a phont enwog Pontypridd, byddent yn canmol yr olygfa o ben y mynydd. Disgrifient gymoedd coediog, gyda bythynnod gwyn a rhwydwaith o berthi ar hyd y heolydd oedd yn cysylltu'r ffermydd.

Daeth y diwydiant glo i fwrw cysgod tywyll dros ein cymoedd, gan dduo'n hafonydd a'n nentydd, a chodi tomenni o wastraff ar ben ein bryniau. Adeiladwyd strydoedd o dai ar gyfer y glowyr a'u teuluoedd, a heolydd da a rheilffyrdd i gysylltu'r gweithfeydd a'r pentrefi newydd hefyd. Nid oedd golygfa hardd o ben Mynydd Caerffili bellach, ond "golwg hagrwch Cynnydd / Ar wyneb trist y Gwaith".



*Hen heol y plwyf yn Ystrad Mynach, a fu unwaith yn heol bwysig i'r ffermydd fyddai'n dod ag ŷd i'r felin a'u ceffylau at y gof gerllaw*

Ond mae rhod hanes wedi troi unwaith eto, a heddiw ychydig iawn sydd i'w weld i dystio i'n hanes diwydiannol. Mae'r pyllau i gyd wedi cau, a'u safleoedd wedi eu troi'n barciau gwledig, a'r rhwydwaith o reilffyrdd wedi ei ddileu. Serch hynny, mae newid yn y dulliau o deithio wedi effeithio ar y rhwydwaith o heolydd a fu am ganrifoedd yn cysylltu ffermydd, bythynnod a threfi marchnad. Lonydd tawel a diarffordd ydynt bellach, tra bod llif y traffig heddiw ar hyd heolydd newydd a grewyd i gwrdd â gofynion ceir, bysiau a lorïau.

Ond mae'r hen heolydd yn dal i fodoli, ac mae'n bleser i'w cerdded ar brynhawn o haf (neu hydref), a chofio am y rhai a fu'n eu cerdded o'n blaen. Mae'n bur debyg i'r llwybrau hyn gael eu creu ganrifoedd yn ôl, a'u bod, fel y ffermydd maen nhw'n eu gwasanaethu, yn dyddio 'nôl i'r Oesoedd Canol. Ac mae modd i'w dyddio hefyd. Datblygodd y dull o ddyddio perthi hanner canrif yn ôl, pan sylweddolodd arbenigwyr fod tystiolaeth gadarn i oedran rhai perthi. Nid ffermwyr ddoe a'u cododd ac a'u plygodd. Roedd mapiau'r degwm a chynlluniau cyfreithiol yn tystio i'w bodolaeth dros ganrifoedd.

Erbyn heddiw mae'r ddamcaniaeth wreiddiol wedi datblygu'n rheol - Rheol Hooper, wedi ei henwi ar ôl y Dr Max Hooper, a gyhoeddodd ganlyniadau ei ymchwil yn 1974. Mae ymchwil pellach wedi ategu ei waith gwreiddiol. Mae Rheol Hooper yn gofyn i chi gymryd 30 metr o berth, a chyfrif sawl math gwahanol o goed sy'n tyfu ynddi. Ni ddylech gyfrif unrhyw blanhigion "meddal", fel rhedyn, mieri, iorwg a thaglys (*field bindweed*).

Mae'n bur debyg y byddwch yn canfod y ddraenen wen a'r ddraenen ddu wrth i chi chwilio: mae'r rhain yn ffefrynnau gan blannwyr perthi heddiw - a chan eu rhagflaenwyr dros y canrifoedd. Mae'r ddwy yn tyfu'n gyflym, maen nhw'n wydn ac mae eu drain yn rhwystro unrhywun - neu unrhyw anfail - sydd yn ceisio torri trwyddynt. Ond edrychwch wrth geisio dyddio perth am y coed siawns sydd wedi gwreiddio yn y berth, rhoddion yr adar a'r gwiwerod - coed cyll, ffawydd, ynn, celyn, derw a'u tebyg. Os oes mwy na thri math gwahanol o goed, mae'r berth yn debyg o ddyddio 'nôl i'r ddeunawfed ganrif; pump a rhagor, i ddiwedd yr Oesodd Canol. Mae perthi wedi eu darganfod a grewyd ddwy fil a rhagor o flynyddoedd yn ôl. Olion archaeolegol yn unig sy'n ategu canfyddiadau Rheol Hooper am oedran y perthi hynafol hynny.



A beth am Tir-y-berth, y pentref rhwng Pengam ac Ystrad Mynach? Pentref cymharol newydd yw hwn, wedi ei adeiladu yn y 1920au ar gyfer gweithwyr y pyllau cyfagos. Mae enw'r cwmni glo mawr Powell Dyffryn i'w weld ar ei strydoedd, ond mae un heol wedi ei henwi hefyd ar ôl Arthur Horner, un o arweinwyr amlycaf glowyr De Cymru yn ystod Streic 1926. Codwyd ysgol y pentref yn 1927. Heol o'r un cyfnod sy'n cysylltu Tir-y-berth â'r pentrefi eraill - "New Road" yw'r enw plaen arni, ac mae'r perthi ar ei hyd yn rhai newydd hefyd. Y ddraenen wen yw'r prif blanhigyn sydd i'w weld ynddynt, ac er bod ambell dderwen a chollen yn tyfu yn eu plith, nid oes digon o amrywiaeth coed i awgrymu taw hen berth yw hon. Yn wir, mae tystiolaeth ategol i ddangos i'r heol ei hun fod wedi ei chreu tua'r adeg y codwyd tai Tir-y-berth.



*Yr hen lwybr sy'n arwain at yr afon o fferm Tir-y-berth. Dyma lle mae'n croesi'r Heol Newydd..*

Ond beth am hen fferm Tir-y-berth yn sefyll o hyd ar ochr y bryn uwchlaw'r pentref modern ac a roddodd ei enw i'r pentref ei hun? Mae llwybr (a pherthi naill ochr iddo) yn arwain lawr o'r fferm tuag at afon Rhymni: beth yw oedran y llwybr hwnnw, tybed? A beth yw'r rheswm dros enw'r fferm ei hun? Ac a oedd rhyw arwyddocâd i'w pherthi? Neu i un berth yn arbennig? Mae cysgodion amser wedi cuddio llawer o'n hanes oddi wrthon ni, ond mor ddifyr yw'r chwilio a'r dyfalu!

## Fy Ngŵr y Glowr (Stori Uwch Fedredd)

**Lesley Knight**

Dechreuodd fy ngŵr weithio yn y diwydiant glo pan oedd e'n bymtheg oed. Aeth e i'r Ysgol Lofaol yng Nghrymlyn yn syth ar ôl gadael yr ysgol er mwyn hyfforddi i fod yn drydanwr ac, yn y pen draw, yn beiriannydd mwyngloddio trydanol.

Ar ôl iddo fe ddechrau yn y pwll glo, rhoddwyd llysenw iddo gan y dynion hŷn a oedd yn gofalu amdano fe fel eu mab eu hunain. 'Ian Apples' oedd ei lysenw e achos ei fod e'n arfer dod ag afalau i'r gwaith i bawb, afalau a dyfwyd gan ei dad e. Hyd yn oed nawr mae ei gyn-gydweithwyr yn ei alw e'n 'Apples'.

Roedd y gwaith yn y pyllau glo yn beryglus a chaled iawn. Doedd dim llawer o iechyd a diogelwch yn y dyddiau hynny. Sawl gwaith cafodd e sioc drydanol a effeithiodd ar rythm ei galon e am sbel. Roedd e wastad yn oer ac wedi blino ar ôl gweithio dan ddaear am tua saith deg awr bob wythnos. Fel ei gyn-gydweithwyr mae e'n dioddef o broblemau iechyd o ganlyniad i weithio yn y pyllau glo. Mae problemau ysgyfaint gyda fe yn ogystal â phroblemau gyda'i glyw ac mae llawer o'i ffrindiau wedi marw erbyn hyn.

Yn ystod cyfnod streic y glowyr rhwng 1984-1985 casglodd fy ngŵr fwyd gan y bobl o gwmpas yr ardal lle ro'n ni'n byw er mwyn ei ddosbarthu i'r teuluoedd lleol a oedd yn cael trafferth bwydo'u teuluoedd nhw. Cynllun llywodraeth Prydain oedd llwgu teuluoedd er mwyn gorfodi'r dynion yn ôl i weithio. Roedden nhw'n amseroedd anhygoel o anodd i'r gymuned. Caeodd glofa Oakdale am byth ar 25ain o fis Awst 1989, dim ond 24 awr yn dilyn cyhoeddiad y llywodraeth. Gweithiodd fy ngŵr i dan y ddaear am 25 mlynedd ac mae e a'i gyfeillion yn dal i deimlo galar am y golled i'r gymuned. Ond, yn bersonol, ro'n i'n hapus nad oedd rhaid i fy ngŵr weithio mewn lle mor beryglus mwyach a bod y cwm yn wyrdd unwaith eto.

# Merched Y Wawr – Noson gyda Nerys Howell

Hyfryd oedd cwrdd yn Festri Bethel Caerffili ym mis Hydref a chroesawu Nerys Howell, yr ymgynghorydd bwyd, atom, ac roedd hi'n noson fendigedig. Roedd pawb wedi mwynhau gwrando ar Nerys yn adrodd ei hanes wrthym, ac wrth gwrs, roedd y bwyd a baratôdd mor ddi-ffws yn ystod y noson yn flasus iawn hefyd.



Addysgwyd Nerys yn Ysgol Ynyswen Treorci, ac yna yn Rhydfelen cyn symud ymlaen i Goleg Gwyddor Cartref Caerdydd. Yna, bu'n gweithio yn Lloegr a thu hwnt, ond rhaid oedd dod yn ôl i Gymru er mwyn magu ei phlant yn Gymry Cymraeg. Mae ei gwreiddiau yn siroedd Caerfyrddin a Cheredigion, ac fe soniodd am ei mam-gu a fu'n ddylanwad mawr arni – gwraig fferm oedd yn defnyddio cynnyrch tymhorol y fferm.

Mae Nerys yn wyneb cyfarwydd ar S4C, ac wedi bod yn coginio a chyflwyno eitemau bwyd a diod ers 20 mlynedd ar raglenni Prynhawn Da, Heno, Casa Dudley a llawer mwy. Caiff ei gwahodd yn aml i drafod bwyd ar Radio Cymru, BBC Radio Wales ac ITV. Mae'n awdur dau lyfr dwyieithog, *Cymru ar Blât* a
*Bwyd Cymru yn ei dymor*. Bydd ei llyfr nesa yn dod o'r wasg ym mis Tachwedd – anrheg Nadolig perffaith!

Beth oedd ar y fwydlen i ni? Wel, pedwar cwrs, a'r cyfan wedi'i goginio a'i fwyta o fewn yr awr!
Tarten caws Caerffili, winwns a phupur
Cacennau pysgod mecryll
Cig eidion Cymreig, oren a sinsir wedi'u tro-ffrio
Cacen eirin Dinbych



Dyma sylwadau nifer o'n haelodau:

"Roedd clywed sgwrs gartrefol Nerys yn dweud hanes ei bywyd a'i gyrfa tra'r oedd hi'n coginio mor ddiddorol." (RHIAN)

"Noson ddifyr iawn yn gwylio Nerys yn coginio amrywiaeth o brydiau llysieuol, pysgod a chig. Roedd cael eu blasu'n brofiad hyfryd. Pob dim yn edrych yn syml a chawson gyngor gwerth chweil." (LINDA)




"Diolch Nerys! Cogyddes o fri ac yn coginio tri chwrs blasus, pum seren i'w blasu. Noson gartrefol er y tywydd garw." (MAGS)

"Noson ddifyr heno yng nghwmni Nerys. Pawb wrth eu bodd yn mwynhau bwyta popeth." (MARI)

"Roedd naws hyfryd a hamddenol i'r noson. Mwynhad pur." (GAYNOR)

"Noson o Hydref y tu allan i furiau Bethel, ond hafddydd i Ferched y Wawr o'u mewn, yn heulwen a gwres personoliaeth hyfryd Nerys a'i choginio bendigedig." (ELIN)

"Noson ddifyr iawn a'r danteithion yn fendigedig. Fe ddiflannodd yr amser mor sydyn wrth i ni gael gweld Nerys yn coginio, blasu'r bwyd a chlywed ei hanes a'i phrofiadau hynod ddiddorol. Gobeithio wir y gallwn gael ei chwmni hyfryd eto i sôn am ei llyfr ryseitiau newydd a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn hir." (LLINOS)

Ar ddiwedd y noson, gofynnodd Nerys a oedd cwestiwn gan rywun.
"A wnewch chi ddod eto?" Prawf o noson fendigedig.

# Genedigaeth

**Ganed Noa Hywel Dennis Gruffydd ar Awst 18fed i Gemma ac Iwan, cwmni i'w chwaer fawr Ela. Ein llongyfarchiadau cynhesaf i'r teulu ifanc ac i Sian (Griffiths) ar ddod yn fam-gu unwaith eto. Nai bach hefyd i 'Wncwl Emyr'.**

# Colofn y Siaradwyr Newydd

Diwrnod olaf mis Hydref yw Nos Galan Gaeaf, dechrau'r gaeaf, a Halloween yn Saesneg. Mae'n draddodiad i adrodd straeon ysbryd ar y noson yma, felly dyma stori ysbryd i chi.

Flynyddoedd yn ôl, roedd gwraig ifanc o'r enw Carri yn byw gyda'i phlant bach mewn tŷ ger pentref yng Ngheredigion. Roedd ei gŵr yn gweithio mewn pwll glo yn ardal Pontypridd a ddim ond yn dod adref unwaith neu ddwy bob blwyddyn. Roedd Carri'n teimlo'n unig yn aml a phan glywodd hi sŵn traed yn dod at y drws yn hwyr un noson, roedd hi'n hapus ei bod yn mynd i gael cwmni un o'i chymdogion. Stopiodd y sŵn traed ond doedd dim sŵn curo ar y drws. Ar ôl munud neu ddwy, agorodd Carri'r drws ond doedd neb yno. Oedd rhywun yn chwarae tric arni hi tybed?

Digwyddodd yr un peth y noson wedyn ac am sawl noson i ddilyn. Roedd Carri'n gallu gweld cysgod tu allan trwy'r bwlch o dan y drws ond doedd neb yno. Erbyn hyn roedd hi'n ofnus iawn ac aeth hi i siarad â'i chymdoges agosaf, hen wraig oedd wedi byw yn y pentref ar hyd ei hoes. Adroddodd Carri ei stori wrthi. 'Wel,' meddai'r hen wraig, 'mae wedi dechrau eto. Mae sawl person arall oedd yn byw yn y tŷ wedi cael yr un profiad. Amser maith yn ôl, roedd ffermwr yn cerdded adref o ffair Tregaron. Roedd e wedi gwerthu mochyn yn y ffair ac felly roedd arian gyda fe. Pan oedd e'n dod yn agos i'r pentref, dechreuodd e deimlo'n nerfus, teimlo bod rhywun yn ei ddilyn. Brysiodd am adre ond yn anffodus chyrhaeddodd e ddim. Pan aeth ei deulu i chwilio amdano, ffeindion nhw ei gorff ar ochr y ffordd a doedd dim golwg o arian y ffair. Roedd rhywun wedi ymosod arno a'i ladd. Ers hynny, mae sawl person wedi clywed sŵn traed yn dod at eich tŷ chi, Carri - mae ysbryd yr hen ffermwr wedi dod nôl.'

'Ond beth alla i wneud?' gofynnodd Carri. 'Does arna i ddim eisiau ysbryd tu allan i'r tŷ bob nos!' 'Roedd pawb yn meddwl bod y llofrudd wedi dwyn yr arian', meddai'r hen wraig, 'ond efallai bod y ffermwr wedi cuddio'r arian cyn i'r llofrudd ei ddal. Nawr mae e'n dod nôl i edrych am ei arian. Ewch chi i chwilio tu allan i'r tŷ, Carri. Triwch ffeindio'r arian!'

Y diwrnod wedyn dyna wnaeth hi. Ar ôl chwilio a chwilio yn yr ardd, sylwodd Carri ar garreg yn wal y tŷ oedd yn edrych yn rhydd. Llwyddodd hi i dynnu'r garreg allan ac roedd darnau o arian yn y wal. Aeth hi â'r arian at y ficer a dweud ei bod hi'n eu rhoi i'r eglwys. Chlywodd hi erioed y sŵn traed ar ôl y diwrnod hwnnw.

Mae hon yn stori wir. Sut ydw i'n gwybod? Wel Carri oedd fy hen fam-gu!

*traddodiad : tradition   stori ysbryd : ghost story   unig : lonely   sŵn traed : footsteps*
*cymdogion : neighbours   cymdoges : female neighbour   curo : knock*
*cysgod : shadow   bwlch : gap   sawl person : several people   profiad : experience*
*amser maith yn ôl : a long time ago   dilyn : follow   corff : body   dim golwg o : no sign of*
*ymosod : attack   llofrudd : murderer   rhydd : loose   llwyddo : succeed*

*Ann Lewis*

# Ysgol Gymraeg Caerffili

## Diwrnod Miri Melyn

Ar Ddydd Gwener, 13 o Hydref dathlon ni fel ysgol trwy gydnabod Miri Melyn, Diwrnod Iechyd Meddwl Pobl Ifanc. Roedd cyfle i ni wisgo dilledyn melyn a'n dillad ein hun. Asiodd ein dosbarthiadau a chynnal gweithgareddau i godi ein hymwybyddiaeth. Gweithion ni gyda disgyblion iau gan greu 'chatterbox' lles, map meddwl am y pethau sy'n ein gwneud ni'n hapus a chwarae gemau bwrdd. Roedd hi'n hyfryd dod i adnabod ein gilydd yn well a mwynheuon ni bob eiliad. Roedd hi'n hyfryd i ni fel blwyddyn 6 gael cyfle i arwain gweithgareddau gyda phlant iau.

*Efa a'r Clwb Clecs*

## Gwasanaeth Miss Williams

Ddydd Gwener, 13 o Hydref, nes i a fy ffrindiau dosbarth siarad o flaen rhieni a phlant yr ysgol am bwysigrwydd iechyd meddwl a lles. Gwisgodd pawb rhywbeth melyn, gan ein bod yn tynnu sylw at Ddiwrnod Miri Melyn - Diwrnod Iechyd Meddwl Pobl Ifanc.

*Isla Elliott*

## Gwasanaeth Mr Jones - Diolchgarwch / Cynhaeaf

Ddydd Gwener y 6ed o Hydref aeth Cam Cynnydd 3 i gapel Tonyfelin i ddathlu Cynhaeaf wrth wylio gwasanaeth dosbarth Bl6 Mr Jones.

Neges y gwasanaeth oedd dweud diolch i'r holl ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd. Yn ogystal â hynny, cawsom ni'r cyfle i rannu'r neges bwysig o ddechreuad newydd. Dydy hi byth yn rhy hwyr i newid cyfeiriad, neu newid eich meddwl.

Daeth Mr MacAvoy o Gwm Rhymni a'n rhieni i'n gweld ni, ac i'n cefnogi. Gwnes i fwynhau oherwydd roeddwn i'n hyderus yn dweud fy ngeiriau o flaen y gynulleidfa. Am brofiad da, diolch Mr Jones.




*Disgyblion Blwyddyn 6 yn mynd a bwyd at Fanc Bwyd i Gapel Connect Life*

Gofynnon ni i rieni a gwarchodwyr Ysgol Gymraeg Caerffili i gyfrannu bwyd sych neu fwyd mewn tun i rannu gyda theuluoedd llai ffodus na ni. Cafodd Blwyddyn 6 y cyfle i ollwng y bwyd gyda Banc Bwyd Capel Connect Life.

*Tyra-Jae*

## Gwasanaeth Mrs Jones

Ar ddydd Gwener, y nawfed ar hugain o Fedi, perfformiodd dosbarth Mrs Jones eu gwasanaeth cyntaf. Roedd y gwasanaeth am sut i fod yn iach. Defnyddion ni Charlie â'r Ffatri Siocled fel sbardun i drafod sut i fyw'n iach.

Yn gyntaf, trafodon ni bwysigrwydd bwyta pum darn o ffrwythau a llysiau bob dydd a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Fy hoff ddarn i o'r gwasanaeth oedd y cyfle i actio rhan Violet Beauregarde. Gwisgais i wisg las a chwifiais fy nhocyn aur. Daeth ein teuluoedd i fwynhau'r gwasanaeth a'n cefnogi.

*Serenity*

## Athletau / Traws Gwlad

Ar Ddydd Iau'r 12fed o Hydref aeth llond bws o blant o Ysgol Y Castell ac Ysgol Gymraeg Caerffili i gystadlu mewn cystadleuaeth draws gwlad yn y Coed Duon. Daeth bechgyn ein hysgol yn ail yn y gystadleuaeth, daeth y merched yn GYNTAF! Roedd y ras yn heriol tu hwnt oherwydd bod bryn serth a thrac igam ogam. Er hynny, wnes i fwynhau a des i yn safle 74 allan o 200 merch.

Edrychaf ymlaen at y gystadleuaeth nesaf!

*Sofia*

## Athletau gan Mali

Es i i gynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth draws gwlad. Roeddwn i wrth fy modd yna. Ces i amser ardderchog ac fe ddes i'n gyntaf!

Roedd yr haul yn braf ar ddechrau'r diwrnod ond dechreuodd hi fwrw glaw.

Ffeindiais i'r ras yn anodd, ond roedd hi'n fendigedig i glywed pobl yn bloeddio i fy nghefnogi i. Roeddwn i wedi rhedeg yn gyflym fel y gwynt a gwneud yn dda.

Roedd fy ffrindiau yno ac roedd hi'n ddiwrnod hwyl i'w gofio.

*Mali Thomas ar ddiwedd*

*Ras Merched Blwyddyn 3 a 4.*




## Cyngor Ysgol

Dwi'n lwcus iawn fy mod i wedi cael fy newis i fod yn aelod o'r Cyngor Ysgol. Roedd disgwyl i unrhyw un hoffai fod yn aelod o'r Cyngor Ysgol i wneud cyflwyniad yn y dosbarth, o flaen pawb.

Wedyn, roedd pawb angen pleidleisio pa ddau blentyn fyddai'n cynrychioli'r dosbarth ar y Cyngor Ysgol. Rydw i'n lwcus i weithio gyda Miss Davies er mwyn trefnu gweithgareddau ysgol. Mor belled rydyn ni wedi gwneud cyflwyniad i rieni a Llywodraethwyr yr Ysgol, rhannu syniadau ar gyfer Diwrnod Miri Melyn a gwisgo coch Ddydd Gwener 20fed o Hydref er mwyn cefnogi 'show racism the red card'.

*Ella Emmanuel*

## Tân y Meithrin

**Yn dilyn tân tu allan i'n Huned Feithrin ar y 3ydd o Fehefin mae Mrs Morgan wedi bod yn dysgu ein disgyblion o fewn i'r ystafell a adeiladwyd ar safle'r ysgol y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau ein bod yn cael derbyn mwy o ddisgyblion i'r ysgol. Mae'n braf dweud bod ein disgyblion Meithrin wedi ymdopi'n dda yn yr ystafell newydd ond yn edrych ymlaen at ddychwelyd i'r Uned Feithrin ym mis Tachwedd.**

**Braf iawn nodi hefyd bod yr ysgol wedi derbyn llawer iawn o gefnogaeth gan swyddogion y Sir a'r Fenter Iaith. Diolch iddynt am fod mor gefnogol gan ganiatáu i'n disgyblion Codi'n Dair ail leoli i'r hen ysgol ym mis Mehefin. Roedd yn golygu mai dim ond un diwrnod o ysgol gollodd ein disgyblion Meithrin. Bydd yr ystafell newydd yn cael ei defnyddio ar gyfer ein disgyblion Codi'n Dair ym mis Ionawr ac yna yn cael ei defnyddio ar gyfer ystafell ddosbarth ym mis Medi 2024. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gallu derbyn 59 o ddisgyblion i'r ysgol o hyn ymlaen yn lle 55.**

***Mr Lynn Griffiths***

















**LLUNIAU gan**

**Irfonbennett.com**



















# EISTEDDFOD y CYMOEDD 2023

## Canlyniadau

| | 1af | 2ail | 3ydd |
|---|---|---|---|
| Unawd Bl 2-4 | Elan Spanswick | Betsan Rowlands | Steffan Jones |
| Llefaru Bl 5-6 | Osian Jones | Dewi Rowlands | |
| Unawd Bl 5-6 | Osian Jones | Dewi Rowlands | Elin Anastasi<br>Sara Joseph |
| Llefaru Bl 2-4 | Betsan Rowlands | Steffan Jones | |
| Offerynnol Bl 6 ac Iau | Dewi Rowlands | Elis Dickenson | |
| Llefaru Dysgwyr Cynradd | Jack Hennessey | Theo Hughes | |
| Grŵp Dawnsio Cynradd | Ysgol y Castell | | |
| Côr Bl 6 a Iau | Ysgol Garth Olwg | Ysgol y Fenni | Ysgol Cwm Gwyddon |
| **Tlws Coffa Anne Evans** | Ysgol Garth Olwg | | |
| **Perfformiad Mwyaf Addawol Cynradd** | Osian Jones | | |
| Llefaru Unigol Dysgwyr Uwchradd | Ollie Casey | Ieuan Benbow | |
| Unawd Bl 7 -9 | Mathew Bill | Caitlin Rogers | Beca Jones<br>Catrin Evans |
| Grŵp Llefaru Dysgwyr Uwchradd | Gurnos, Penydre, | Llywelyn, Penydre | Morlais,Penydre |
| Dawnsio Grŵp Gwerin Uwchradd | Beca Fflur George | Mari Fflur Thomas | |
| Unawd Offerynnol Uwchradd | Beca Jones | Megan Bill | Bethan Paull |
| Llefaru Unigol Uwchradd | Mari Fflur Thomas | Megan Gofrey | Beca Jones |
| Côr Bl 7 – 9 | Ysgol Gyfun Cwm Rhymni | | |
| Unawd Bl 10 – 13 | Scarlett Humphries | Jude Evans | Meleri Godfrey |
| Côr Bl 10- 13 | Ysgol Gyfun Cwm Rhymni | | |
| Grŵp Dawnsio Agored | Grŵp Ysgafndroed | | |
| Ensemble Lleisiol | Cwm Rhondda | Garth Olwg | |
| Grŵp Llefaru Agored | Cwm Rhondda | Lleisiau Rhymni | |
| Unawd Sioe Gerdd Agored | Sophie Sidoli Price | | |
| Unawd Alaw Werin Agored | Carwyn Wycherley | | |
| Unawd Canu Emyn | Lynwen John | | |
| **Perfformiad Mwyaf Addawol Uwchradd** | Mathew Bil | | |
| Côr Agored | Côrdydd | Côr Meibion Tâf | Côr Aelwyd Cwm Rhondda |
| **Tlws Dawnsio Drwy'r Cwm** | Beca George | | |
| Llenyddiaeth Cynradd | Lleucu Real | | |
| Llenyddiaeth Bl 7-9 | Ella Fitzell | Safiya Islam | Isabelle Green |
| Llenyddiaeth Bl 10-13 | Siwan Jones | Mai Webley | Tomas Mills |
| Limerig Dosbarth | Mr Mac-Cwm Rhymni | Mr Mac-Cwm Rhymni | Mr Mac-Cwm Rhymni |
| Cerdd | Gaenor Jones | Rose Hurford | Elise Pollock |
| Englyn | Eirian Dafydd | | |
| Cystadleuaeth Lenyddol i Ddysgwyr | Katie Kozak | Kenzie Oaten | Susie Wakeman |
| Cyfres o Luniau – Tymhorau | Gaenor Jones | Gaenor Jones | Imogen Dickson |
| Llun Unigol – Cynefin | Gaenor Jones | Gwydion Ifan Jones | Lleucu Haf Thomas |

# Colofn Dafydd Islwyn

Pan urddir Mererid yn Archdderwydd Gorsedd Cymru yn Wrecsam y flwyddyn nesaf, hi fydd yr ail ferch yn y swydd. Ers 1888 mae tri deg pedwar Archdderwydd wedi eu hurddo. Mae wyth ohonynt â chysylltiad â Chwm Rhymni. Ers 1950 bu un deg pedwar arall ar ymweliad â'r Cwm.


Bu Dyfed (1850 - 1923) yn Archdderwydd o 1905 hyd 1923. Wrth ei gofio, daw dwy ffaith amlwg am ei gysylltiad â Chwm Rhymni i'r wyneb. Roedd ef yn adnabod y bardd Islwyn, William Thomas, Cwmfelinfach (1832-78). Dyfed olygodd y gyfrol goffa i Twynog (1844-1911) yn 1912. Gwasanaethodd yn angladd Twynog, un o feirdd Rhymni. Prif ddigwyddiad ei dymor fel Archdderwydd oedd gweinyddu seremoni'r Gadair Ddu yn Birkenhead yn 1917. Cyhoeddodd nifer o gyfrolau, ac yn eu plith ei waith barddonol mewn dwy gyfrol. Chwe deg mlynedd yn ôl prynais y ddwy yn ail law yn Aberteifi. Mae'r awdur wedi arwyddo'r gyntaf! Rwy'n hoffi ei englyn Ddyddiau Mebyd,

Dyddiau yn llawn dedwyddyd - eneiniog
Wanwyn bore mebyd,
Rhyw enfys glaer o wynfyd
Yn dŵr crwn, gysgoda'r crud.

Yn y Genedlaethol, Caernarfon 1926, enillodd y Parchedig J. J. Williams (1869-1954) ei Gadair gyntaf. Fe'i Cadeiriwyd gan Dyfed. J.J. oedd yr wythfed Archdderwydd a bu'n gweinyddu o 1936 tan 1939. Bu ef yn weinidog Capel Moreia (A), Rhymni, o 1897 hyd 1903. Fel Archdderwydd cafodd Gadeirio ei gyd-Gardi a Choroni dau. Cofir amdano yn bennaf fel y beirniad oedd eisiau Cadeirio Hedd Wyn yn y Genedlaethol yn Aberystwyth yn 1916. Ymhen y flwyddyn yr oedd yn un o dri beirniad ar yr awdl ym Mirkenhead pan enillodd Hedd Wyn. Roedd Dyfed yn cyd-feirniadu ag ef. Nid oedd y beirniaid yn hapus o gwbl gyda'i englyn delweddol, Y Wawr, yn y Genedlaethol ym Mae Colwyn 1910. Roedd J.J. yn englynwr o flaen ei oes,

Y Wawr
Mun wen yn ymunioni – a'r awel
Ym modrwyau'i thresi
A lliw teg ei heurwallt hi
Liwiau'r glyn â goleuni.

Dilynwyd J.J. gan Crwys (1875-1968) yn Archdderwydd yn 1939. Bu ef yn y swydd tan 1947. Yn 1924 cyhoeddwyd "Cerddi Newydd Crwys", ei ail gyfrol. Ynddi y cyhoeddwyd ei delyneg adnabyddus, "Dysgub y Dail" – hen ŵr ben bore yn dysgub y dail. Rhymni ydy'r dref yn y gerdd.



Yn ei eisteddfod gyntaf fel Archdderwydd ni chafodd Crwys Goroni na Chadeirio bardd. Yr unig dro i hynny ddigwydd yn hanes y Genedlaethol. Cyhoeddodd Crwys bedair cyfrol o'i gerddi, a dim ond yn un ohonynt y ceir englyn toddaid! Ni welodd T. Llew Jones yn dda i'w cyhoeddi yn y gyfrol "Bardd y Werin", detholiad o waith Crwys (1953).

Etholwyd Edgar Phillips (1889 - 1963), y prifardd Trefin, yn Archdderwydd 1960 i weithredu tan 1962. Ef oedd yr ail fardd o Sir Benfro i fod yn Archdderwydd. Dyfed oedd y cyntaf. Bu Trefin yn filwr yn y Rhyfel Mawr a chafodd ei glwyfo'n drwm mewn brwydr yn Ffrainc; o ganlyniad cafodd ei ryddhau o'r fyddin.

I atgyfnerthu o'i glwyfau,daeth i fyw at ei fodryb a'i ewythr yng Nghefn Fforest. O 1923 tan 1954, bu'n athro yn y fro ac yn byw ym Mhengam, cyn symud i'r Coed Duon. Bu'n byw yno tan fis Mawrth 1962, pryd y symudodd i fyw yn ardal Hammersmith, oherwydd iddo lwyr golli ei iechyd. Yno bu farw ar y 30ain o Awst 1962. Dim ond yn y Genedlaethol, Caerdydd, y cafodd Trefin weithredu fel Archdderwydd.

Cafodd gynnal seremoni'r Coroni Rhosllannerchrugog 1961 a bu rhaid iddo gilio o'r llwyfan oherwydd ei afiechyd, effaith ei gyfnod fel milwr. Cofir am Drefin fel yr ail o dri Archdderwydd i fethu gorffen ei dymor. Cadfan, y Parchedig John Cadfan Davies (1846-1923), oedd y cyntaf. Ni allodd oherwydd ei waeledd ond agor yr Orsedd yn Yr Wyddgrug 1923. Dic Jones oedd y trydydd. Yn y Genedlaethol yng Nghaerdydd 2008 yn unig y cafodd ef weithredu.


Pan oedd Trefin yn byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, daeth yn gyfeillgar â Dyfed. Yn 1950, y cyhoeddwyd "Caniadau Trefin". Ni cheir ynddi'r un englyn unigol! Ceir rhai yn Beirdd Penfro 1961 a chofiant Trefin 1963. Gwenais wrth ddarllen yr englyn, Maen Coffa Dewi Emrys. Cofiais am y stori fel y bu i Dewi Emrys geisio cael hwyl gyda thrydedd wraig Trefin yn ystod y Genedlaethol, Caerffili 1950!

Maen Coffa Dewi Emrys
Nid maen llwyd ym min y lli – wna gofeb
I'm hen gyfaill Dewi;
Daw pob atgof i brofi
Yn wron mawr iawn i mi.

# Gwynt y Dwyrain

Mae corff merch ifanc yn cael ei ddarganfod mewn mynwent ym Meirionnydd, a dau fyd yn gwrthdaro wrth i heddlu o'r pencadlys gyrraedd. Rydyn ni'n dilyn yr ymchwiliad i lofruddiaeth Debbie fesul diwrnod, trwy lygaid Idwal Davies, heddwas lleol.

Plismon hen deip yw Idwal i'w gymharu gyda heddlu'r pencadlys: mae'n hoffi mynd ei ffordd ei hun, gan dynnu yn groes i'w benaethiaid ar adegau; mae'n defnyddio grym a bygythiadau pan fo rhaid; ond mae e hefyd yn teimlo'i lygaid yn cronni wrth feddwl am Debbie ac yn mynd allan o'i ffordd i helpu ei mam. Dyma heddwas da ond ffaeledig, sy'n brwydro ei gythreuliaid ei hun wrth chwilio am gyfiawnder. Mae yn llinach ditectifs fel Wallander, Sherlock Holmes, Harry Bosch a Rebus, ac os oes mymryn o'r ystrydebol yn hynny mae e oherwydd bod yr ystrydeb yn creu cymeriadau cofiadwy sy'n mynnu sylw.




Nid Idwal yw'r unig gymeriad cymhleth yn y nofel, mae Tan-y-Graig yn frith ohonynt. Mae Alun Ffred  wedi mwynhau creu eu straeon lliwgar nhw, gan archwilio seicoleg ac ymddygiad. Mae'na ddawn cymeriadu a chlust am linell fachog ac am ddeialog. Jeff Judge er enghraifft, perchennog cwmni Quick Clean, "ei wallt cringoch heb weld crib ers ei briodas ddiweddaraf". Mae'na hefyd ddawn i ddisgrifio lleoliad a thirwedd, gan ychwanegu at naws y golygfeydd.

Roedd y llwyth o gymeriadau yn amharu ar lif y nofel i fi ar adegau, a'r stori yn medru mynd yn eilbeth yng nghanol hanesion lliwgar trigolion Tan-y-Graig. A gellid hefyd bod wedi hepgor ambell frawddeg (yn y ddeialog ac wrth osod golygfa) sy'n dweud rhywbeth sydd wedi'i awgrymu eisoes.

Mae'r nofel wedi ei gosod ar droad y mileniwm, ac mae'na fydoedd yn gwrthdaro y tu hwnt i'r cwympo mas rhwng Idwal a'i benaethiaid. Mae hiraeth am gymdeithas sy'n diflannu yn thema gyson yn "Gwynt y Dwyrain". Mae cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dechrau tarfu ar y pentref, mae dwyieithrwydd DI Lucy Green yn codi cwestiynau am y Gymraeg, ac mae crefydd ar drai. Nid damwain yw hi fod archifau capel sydd wedi cau, ac sy'n cael eu gwarchod yng nghartref cyn-athrawes ac ysgrifenyddes y capel, yn hanfodol i ddatrys rhan o'r ymchwiliad. Cawn gip ar y gorffennol wrth i Miss Evans gynnig bwyd i Idwal a'i gynorthwyo i chwilio trwy adroddiadau blynyddol yr eglwys i ganfod atebion. Yr awgrym yw ein bod ar ein colled oherwydd newidiadau mewn cymdeithas.

Fe wnaeth Idwal Davies fynnu fy sylw, gyda'i fywyd anodd a'r cyfyng gyngor mae'n ei wynebu ar ddiwedd y nofel. Ond doedd diweddglo'r nofel ddim yn taro deuddeg yn llwyr. Mae pethau'n dod i ben yn gyflym, a llinynnau storïol cymhleth yn cael eu tynnu ynghyd heb efallai rhoi sylw digonol i ambell ddigwyddiad a chymeriad. Gyda chymaint o bwyslais gynt ar y cymeriadau a'u bywydau, roeddwn i am wybod mwy am rai ohonynt wrth i'r achos ddirwyn i ben.

*Cerian Arianrhod*

# Dr William Price (1800 – 1893)

Cysylltir enw'r arloeswr Dr William Price ag ardal Llantrisant ond yng ngwaelodion Cwm Rhymni y treuliodd ei ddyddiau cynnar. Fe'i ganed yn yr ardal a adweinir bellach fel Waterloo sydd rhwng Tretomas a Machen Isaf ar yr heol sy'n arwain i Rhydri. Bellach mae plac ar wal un o'r tai yn yr ardal i nodi'r ffaith iddo gael ei eni yno. Roedd ei dad yn offeiriad yn yr Eglwys, ac mae sôn amdano'n derbyn ei addysg yn fachgen bach yn yr ysgol ym Machen.

Daeth yn feddyg er iddo adael yr ysgol yn gynnar. Gyrrwyd ef at Dr Evan Edwards yng Nghaerffili lle bu am 5 mlynedd a dywedir mai yno y dysgodd Saesneg ynghyd â rhywfaint o Ladin. Yna, yn 1820, aeth i dderbyn hyfforddiant yn y Coleg Brenhinol i Lawfeddygon yn Llundain.



Roedd y gŵr unigryw hwn flynyddoedd o flaen ei amser gan gredu'n gryf y dylai pobl fwyta'n iach er mwyn osgoi afiechydon. Credai hefyd, petai pobl yn ddigon anffodus i fynd yn sâl, mai meddyginiaethau naturiol oedd orau iddynt. Yr hyn a elwir yn feddyginiaethau amgen y dyddiau hyn.

Roedd yn arloeswr mewn sawl cyfeiriad, yn un a fu'n weithgar dros famau dibriod, er na phriododd ef ei hun. Roedd yn dipyn o ecsentrig o ran ei olwg, o'r het croen llwynog ar ei ben hyd at wrthod gwisgo sanau! Gwisgai siaced wen, wasgod ysgarlad a throwsus gwyrdd. Yn wir, gellir gweld y wisg hon bellach yn Sain Ffagan.

Wynebodd drafferthion oherwydd ei ddaliadau gwleidyddol ag yntau'n un o gefnogwyr cynnar y Siartwyr a dywedir i rywun arall â gwallt hir tebyg i Dr Price gael ei saethu gan filwyr oedd yn ceisio ei saethu ef. Oherwydd ei ddaliadau bu'n rhaid iddo ddianc i Ffrainc am gyfnod. Dywedir iddo ddychwelyd i'r wlad hon wedi'i wisgo fel menyw!

Gwrthwynebai grefydd gonfensiynol gan gredu ei fod yn un o ddisgynyddion y Derwyddon a bu'n cydfyw â chymar, Gwenllïan Llywelyn, yn hytrach na'i phriodi. Fe'i harestiwyd hefyd yn 1884 am amlosgi ei faban pum mis oed. Roedd wedi enwi'r mab hwn yn Iesu Grist. Ond fe'i rhyddhawyd yn y pen draw ac erbyn hyn gwelir iddo weithredu'n arloesol gan ei bod yn arferol amlosgi cyrff y meirw erbyn hyn.

Yn arweinydd cynnar yn y frwydr am wasanaeth iechyd, cyflwynodd Dr Price ei wasanaeth iechyd ei hun yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd hyn flynyddoedd o flaen ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlodd Cymro arall, Aneurin Bevan, yn 1947. Tua 1823 cynigiodd wasanaeth i weithwyr Brown Lennox ym Mhontypridd. Bellach archfarchnad Sainsbury sydd ar y safle lle bu'r gwaith peirianneg a gellir gweld y siop ar yr ochr dde wrth deithio tua'r gogledd am Bontypridd ar yr A470. Cytunodd y gweithwyr i dalu un (hen) geiniog yr wythnos o'u cyflog a phan fydden nhw neu unrhyw un o'u teulu'n sâl, byddai'r meddyg yn rhoi triniaeth iddynt yn rhad ac am ddim. Bu'n feddyg iddynt am ryw hanner can mlynedd.

Ar y 31ain o Ionawr 1893, dywedir i dros 20,000 o bobl ddod i weld ei "angladd", pan amlosgwyd ei gorff ar Gae Caer-lan ger Llantrisant a cheir cerflun i gofio'i fywyd ar y Bull Ring yn Llantrisant. Mae'r ffaith mai yng Nglan Taf ym Mhontypridd y sefydlwyd amlosgfa flynyddoedd yn ôl yn deyrnged i'r arloeswr dewr hwn.

Dinca Fala

# Pobi bara - 2

Fis diwethaf, disgrifiais sut yr es i ati i wneud bara "go iawn" am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, a hynny wedi i fi ddanto ar y peiriant gwneud bara a brynais. Y diwrnod hwnnw, es i ati i wneud bara cyflym, sy'n ddull diweddar iawn o'i wneud. Ond roedd defnyddio tun bara fy hen fam-gu wedi fy ysbrydoli - ac roedd bwyta torth ffres o fara cartref wedi codi archwaeth arnaf i ail-afael yn y grefft o bobi bara yn hytrach na'i brynu o'r siop.

Flynyddoedd yn ôl byddwn yn pobi bara bob wythnos, ac yn ei gael yn rhyfeddol o hawdd i'w wneud, er bod yn rhaid i fi brynu burum ffres yn y dyddiau hynny. Roedd burum powdwr ar gael yr adeg honno, ond roedd yn rhaid i chi roi hwnnw i "weithio", sef ei gymysgu gyda dŵr claear a siwgr nes i'r gymysgedd ddechrau magu swigod bach - llawn gymaint o botsh â defnyddio burum ffres, mewn gwirionedd.



Ond mae ansawdd y burum powdwr wedi gwella erbyn heddiw, a nawr does dim angen i chi wneud mwy na'i gymysgu gyda'r blawd cyn ychwanegu'r cynhwysion gwlyb. Felly, dyma fi wedi ail-afael yn yr hen arfer o wneud torth o fara bob wythnos, ac yn mwynhau'r pobi - a'r bwyta - fel ei gilydd.

Yr unig anfantais o wneud bara yn y dull traddodiadol yw ei fod yn broses hir: fe gymeriff ddwy awr o leiaf. Ond nid yw bara'n gofyn sylw cyson, felly mae modd gwneud pethau eraill wrth i chi ei baratoi. Felly, os hoffech fynd ati i brofi ychydig o flas bara go iawn, heb unrhyw ychwanegiadau, dyma'r rysáit.

Cymerwch 500g o flawd "cryf", sef y math o flawd sy'n addas ar gyfer bara yn hytrach na'r blawd ysgafnach a ddefnyddir i wneud teisen neu grwst. Rhowch hwnnw mewn powlen a chymysgwch 7g o furum powdwr ato. Cewch ychwanegu llond llwy de o halen ato hefyd, os hoffech. Yna mesurwch 300ml o ddŵr claear, ac ychwanegwch lond llwy fwrdd o olew at hwnnw, ynghyd â llond llwy de o siwgr neu fêl.

Gwnewch bant yn y cynhwysion sych, arllwyswch yr hylif iddo a chymysgwch y cyfan yn dda. Rwy'n defnyddio llwy i wneud hyn i gychwyn, ond unwaith i'r blawd ddechrau sugno'r dŵr a dod at ei gilydd i ffurfio toes, mae'r amser yn dod i ddefnyddio'ch dwylo - ac mae'r hwyl yn dechrau.

Mae angen tylino'r toes yn dda, nes iddo ffurfio pelen gyfan yn eich dwylo sydd ddim yn glynu at eich croen. Nawr yw'ch cyfle i gael gwared ar unrhyw deimladau cas, atgofion anhapus, rwystredigaeth neu atgasedd. Mae toes bara yn hoffi cael ei drin yn arw - cewch ei fwrw gyda'ch dyrnau, ei wasgu i'r bwrdd. Mae'n help i daenu blawd dros hwnnw'n gyntaf, ei ffustio a'i dynnu i bob siâp dan haul: mae camdriniaeth fel hyn yn gwella ansawdd y bara.

Unwaith i chi flino ar y sbort, ffurfiwch y toes yn belen, a'i roi i "orffwys" mewn powlen gyda gorchudd drosto. Bydd angen powlen ddwy neu deirgwaith maint y belen does, oherwydd bydd honno'n dyblu ei maint yn ystod yr awr nesaf. Tra ei bod hi'n gorffwys, fe gewch chi dreulio awr yn gweithio, neu siopa, neu arddio, neu fynd am dro. Mae angen cadw'r toes yn glyd, ond does dim angen ei gadw'n gynnes. Ar ôl rhyw awr bydd y toes yn dyblu ei faint, ond mae'n dibynnu ar dymheredd yr ystafell, ac fe allwch roi'r toes i brofi yn yr oergell dros nos, mae'n debyg. Dwi ddim erioed wedi gwneud hynny fy hun - ond byddaf yn rhoi cynnig arni ryw ddydd. Unwaith i'r toes ddyblu ei faint, ewch ati i'w ffustio unwaith eto.

# Pobi bara - 2



Mae'r toes erbyn hyn yn debyg iawn i "playdough", a dyma'ch cyfle i ryddhau eich dawn greadigol. Cewch dorri'r toes yn stribedi a'u troi'n glymau, neu eu plethu, neu greu siapiau blodau neu anifeiliaid - beth bynnag sydd yn eich plesio. Yn ddiweddar rwy wedi pobi torthau crwn a rhai ar siâp y "cottage loaf" hen ffasiwn. Os ydych am bobi mewn tun traddodiadol, cewch dorri siapau ar y dorth cyn ei phobi - bydd hynny'n rhoi mwy o grwst ar y dorth orffenedig.

Pan fyddwch wedi bwrw'r aer i gyd allan o'r toes, rhowch e mewn tun *wedi ei iro'n dda.* Rwy'n pwysleisio hynny bob tro - ar ôl gorfod torri darnau allan o un dorth er mwyn ei chael hi allan o'r tun! Neu fe allwch roi'ch gwaith creadigol ar blât i bobi - ar ôl iro'r plât hwnnw'n dda hefyd...

Rhowch dri chwarter awr wedyn i'r toes orffwys eto cyn ei roi mewn ffwrn boeth (220C/ Nwy 7) am hanner awr neu ddeugain munud (llai os yw'r toes wedi ei rannu'n ddarnau bach - os felly, cadwch lygaid arnynt wrth iddyn nhw bobi: mae'r ffwrn yn boeth iawn). A dyna fe! Proses hir, ond un syml iawn yn y pendraw, ac mae'n anodd iawn gwneud camgymeriadau gyda hi os ydych yn amyneddgar. Does dim rhyfedd bod bara'n gynhaliaeth sylfaenol dynol ryw!

# Ffarwel haf

***Shwt ma'r ardd in edrych?***

Dyna'r geiriau sydd yn dod i'r meddwl yr adeg hon o'r flwyddyn wrth i ni dacluso'r ardd yn barod at y gaeaf. Oherwydd dydyn ni heb gael rhew caled eto, mae rhai planhigion yn dal i flodeuo, ond mae ansawdd eu blodau yn arwydd arall o newid tymor. Pethau bach gwanllyd ydynt, yn agor yn obeithiol tuag at yr haul, ond yn cael eu rhacso gan y gwynt a'r glaw yn amlach na dim. Er mor anodd yw ffarwelio â'r haf a'i flodau, nawr mae'n rhaid tocio a chlirio a chwynu cyn y gaeaf a'i stormydd.



Ond mae un o'r rhosod sydd gen i yn fy rhyfeddu. Er bod y rhosod eraill wedi gorffen blodeuo erbyn hyn, mae dau flaguryn iach iawn ar y rhosyn arbennig hwn o hyd, a hynny ar ddiwedd mis Hydref.

Nid yw'n anarferol i rai rhosod flodeuo am gyfnod hir. Maen nhw'n blanhigion gwydn iawn, ac rwy wedi gweld rhosod yn eu blodau ym mis Rhagfyr, er bod eu dail wedi hen gwympo. Ond mae dail y rhosyn hwn hefyd yn edrych yn rhyfeddol o iach o hyd. Tybed a fydd modd i'w flagur hwyr wrthsefyll ergydion tywydd y gaeaf a datblygu'n flodau hardd? Byddaf yn ceisio gofalu amdanynt a rhoi pob cyfle iddynt wneud hynny - yn groes i holl arferion garddio da,wrth gwrs.



Rhodd oedd y rhosyn hwn, a hynny gan ffrind annwyl sydd ei hun yn gwybod beth yw stormydd bywyd. Byddaf yn meddwl amdani, am ei phersonoliaeth annwyl, ei harddwch a'i dewrder bob tro y byddaf yn edrych ar ei rhosyn. Mae arwyddocâd arbennig i'r blagur hyn i fi, felly.

A dyna beth hyfryd yw cael planhigyn yn rhodd. Mae llyfr yn cael ei ddarllen, siocledi yn cael eu bwyta, tusw o flodau'n gwywo, addurn yn cael ei dorri ... ond mae gobaith mewn planhigyn. Mae gobaith wrth droed y rhosyn hwn hefyd, fel yn y potiau llwm o'i gwmpas. Rwy newydd blannu bylbiau ynddynt, ac felly mae'r gwanwyn ei hun yn cysgu wrth droed y rhosyn dewr...




# Y Galeri

Cardiau lluniau cerfluniau cardiau cyfarch cardiau post ffotograffau a chelfyddyd gain

**Gwasanaeth yn y Gymraeg**

Mae'r Galeri dan y Coffi Vista ganol Caerffili

Kazev67@gmail.com



## CLWB CERDD
## CWM RHYMNI

**Rhif Elusen: 1089092**

Dydd Sadwrn, 25ain o Dachwedd

2:30

Canolfan Gristnogol Siloh, Ystrad Mynach

**Bethan Watson (Y Delyn)**

# Stanford Williams Cyf.

**Cyfrifyddion**

Cyfrifon Cydymffurfiaeth Trethi Cyflogres Cyngor Busnes Llyfr-Gofnodi

**Gwasanaeth yn y Gymraeg**

**Uned C 271-273, Stryd Fawr Y Coed Duon NP12 1AW**

*www.stanfordwilliams.co.uk*

BRAGDY TWT LOL

## Cwrw da Cymraeg a Gwasanaeth Cymraeg

Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol

TrefforestCF375YB

**Ar agor**

Dydd Gwener 12:00 – 18:00.






**A wyddoch chi fod gan Papur Bro Cwmni dudalen Facebook? Beth am ymuno â hi er mwyn ymateb i erthyglau, cadw mewn cyswllt, gweld eitemau sydd ar y ffordd a mwy. Chwiliwch am 'Papur Bro Cwmni' ar yr ardal tudalennau (Pages) yn Facebook**







Dysgu Cymraeg ar lefel Canolradd, Uwch neu Gloywi?

Eisiau ymarfer siarad 1-1 gyda siaradwr rhugl dros y flwyddyn? Cyfleoedd i siarad naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein

Cofrestrwch i fod yn rhan o'r Cynllun SIARAD eleni trwy fynd i https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad/

neu ebostiwch Joshua.Wheeler@coleggwent.ac.uk

Siarad. Coleg Gwent dysgucymraeg.cymru learnwelsh.cymru Gwent

Merched y Wawr Cwm Rhymni

## Noson yng Nghwmni Mati Roberts

Sy'n sy'n Creu a Gwerthu Nwyddau Gwaith Llaw i Godi Arian er Budd Ysgol yn Ghana

**Canolfan y Glowyr, Caerffili**

Dydd Mercher, 15fed Tachwedd

7.00 o'r gloch

Croeso cynnes i aelodau hen a newydd a


Menter Iaith Sir Caerffili
GWEITHGAREDDAU I OEDOLION
@CANOLFAN Y GLOWYR CAERFFILI
TACH 20 +27 NOV
COGINIO DANTEITHION NADOLIG
6:30 - 8:30 PM £15
RHAG 4 + 11 DEC
CREFFT NADOLIG
6:30 - 8:30 PM £15
I ARCHEBU LLE - TO BOOK A SPACE
WWW.MENTERCAERFFILI.CYMRU
MENTRAU IAITH
Mwynhau'r Gymraeg
Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
RHIF ELUSEN GORESTREDIG: 1105172 RHIF CWMNI: 5096968


Menter Iaith Sir Caerffili
TAITH SIOPA NADOLIG I DDINAS BIRMINGHAM
TACHWEDD 18
CASGLU/PICK-UP:
8AM -GORSAF BWS CAERFFILI BUS STATION
8.15 - TESCO YSTRAD MYNACH
£12
GADAEL/LEAVE @ 6:00PM
I archebu sedd/ To book a seat
www.mentercaerffili.cymru
Menter Iaith Sir Caerffili
Rhif elusen gorestredig: 1105172 Rhif cwmni: 5096968
MENTRAU IAITH


Menter Iaith Sir Caerffili
Ffair Nadolig
Christmas Fair
Menter Iaith Sir Caerffili
GROTTO SION CORN
£5 y plentyn / per child
Rhagfyr 2 December
@ Maenordy LLANCAIACH FAWR Manor, Nelson
Sesiwn 1 / Session 1 - (11:30 - 12:15)
Sesiwn 2 / Session 2 - (12:30 - 13:15)
Sesiwn 3 / Session 3 - (13:30 - 14:30)
I brynu tocyn grotto /
To buy your grotto ticket (£5)
www.mentercaerffili.cymru/grottosioncorn
Mwynhau'r Gymraeg
RHIF ELUSEN GORESTREDIG: 1105172
RHIF CWMNI: 5096968
Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


Menter Iaith Sir Caerffili
GWEITHGAREDDAU I OEDOLION
CREFFT CALIGRAPHY
@CANOLFAN Y GLOWYR CAERFFILI
TACHWEDD/ NOVEMBER
6 + 13
6:30 - 8:30 PM
£15
I ARCHEBU LLE - TO BOOK A SPACE
WWW.MENTERCAERFFILI.CYMRU
MENTRAU IAITH
Mwynhau'r Gymraeg
Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
RHIF ELUSEN GORESTREDIG: 1105172 RHIF CWMNI: 5096968